**GWASANAETHAU PROFI CITB - TELERAU AC AMODAU ARCHEBU PRAWF**

## 1. Gwybodaeth am y Telerau ac Amodau hyn

1.1. Yn y telerau ac amodau hyn, mae i'r geiriau canlynol yr ystyron canlynol:

Ystyr "archeb/archebu" yw cais a wneir gennych Chi i archebu Prawf ar yr Amodau hyn.

Ystyr "CITB", "ni" ac "ein" yw Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (Rhif Cofrestru'r Elusen 264289 yng Nghymru a Lloegr) y mae ei brif fan busnes yn Sand Martin House, Bittern Way, Fletton Quays, Peterborough, PE2 8TY.

Ystyr "Amodau" yw'r telerau a'r amodau hyn.

Ystyr "Contract" yw'r contract rhwng CITB a Chi ar gyfer y Prawf a archebwyd yn unol â'r Amodau hyn.

Ystyr "Prawf" yw unrhyw amrywiad ar wasanaethau profi CITB, gan gynnwys y prawf iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, ond heb fod yn gyfyngedig iddo.

Ystyr "Ffi Prawf" yw'r pris rydych Chi'n ei dalu am y Prawf yn unol ag amod 3 (Pris a Thaliad) yr Amodau hyn.

Ystyr "Asiant Archebu Trydydd Parti" yw unrhyw berson, ffỳrm, cwmni a/neu gorff corfforaethol neu anghorfforedig arall sy'n gwneud unrhyw gais i archebu Prawf gyda'r bwriad o werthu'r Prawf neu'i ddarparu fel arall i unrhyw drydydd parti er elw. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd cyflogwr sy'n archebu Prawf ar gyfer ei weithiwr yn cael ei ystyried yn Asiant Archebu Trydydd Parti.

Ystyr "Diwrnod Gwaith" yw diwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul, gŵyl gyhoeddus neu ŵyl y banc yn Lloegr.

Ystyr "Chi" ac "Eich" yw'r unigolyn, y ffỳrm neu'r cwmni sy'n archebu'r Prawf gyda CITB o dan yr Amodau hyn, neu, lle mae'r cyd-destun yn mynnu felly, yr unigolyn (ymgeisydd) sy'n sefyll y Prawf.

1.2. Yn yr Amodau hyn:

(a) mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ati fel y'i diwygiwyd, ei hestynnwyd, ei hailddeddfwyd neu ei disodlwyd o bryd i'w gilydd a bydd yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno fel y'i diwygiwyd, ei hestynnwyd, ei hailddeddfwyd neu ei disodlwyd;

(b) bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at y rhywiau eraill;

(c) rhaid i gyfeiriad at eiriau yn yr unigol gynnwys y lluosog ac fel arall;

(d) bydd geiriau sy'n ymddangos ar ôl yr ymadroddion yn cynnwys, gan gynnwys, arall, er enghraifft, fel, yn arbennig (neu unrhyw ymadrodd tebyg) yn cael eu dehongli fel rhai enghreifftiol ac ni fyddant yn cyfyngu ar ystyr y geiriau sy'n ymddangos cyn yr ymadrodd hwnnw; ac

(e) er hwylustod yn unig y mae'r penawdau ac ni fyddant yn effeithio ar eu dehongliad.

1.3. Mae'r Amodau hyn yn disodli'r holl delerau ac amodau eraill a oedd gynt yn berthnasol i unrhyw Archeb ac fe'u cymhwysir i unrhyw Archeb gan eithrio unrhyw delerau ac amodau eraill. Ar unrhyw adeg, gallwn ddiwygio'r Amodau hyn, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, heb rybudd. Bob tro y byddwch Chi'n gwneud Archeb, edrychwch ar yr Amodau hyn i wneud yn siŵr eich bod yn deall y telerau a'r amodau a fydd yn berthnasol i'ch Archeb Chi ac unrhyw Gontract sydd cael ei ffurfio oddi tanynt.

1.4. Bydd eich mynediad i'n gwefan a'ch defnydd ohoni mewn perthynas â'ch Archeb yn golygu eich bod yn derbyn telerau ac amodau ein gwefan y gellir eu gweld yn https://www.citb.co.uk/utility-links/terms-and-conditions/website-terms-and-conditions/

## 2. Ffurf y Contract

2.1. Bydd y Contract rhyngoch Chi a CITB ar yr Amodau hyn gan eithrio unrhyw delerau ac amodau eraill a'r holl sylwadau llafar neu ysgrifenedig blaenorol.

2.2. Mae CITB yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw Archeb a wneir gennych Chi yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gan gynnwys, heb gyfyngiad, os oes ganddo sail resymol i gredu eich bod yn Asiant Archebu Trydydd Parti.

2.3. Bydd eich Archeb yn cael ei hystyried yn gynnig gennych Chi i brynu'r Prawf yn unol â'r Amodau hyn a'ch sylw a'ch gwarant nad ydych Chi'n Asiant Archebu Trydydd Parti a/neu na fyddwch Chi'n gweithredu fel Asiant Archebu Trydydd Parti yng nghyswllt Prawf.

2.4. Dim ond pan fydd e-bost neu gadarnhad ysgrifenedig arall o'ch Archeb yn cael ei anfon atoch y bydd CITB yn ystyried bod eich archeb wedi'i derbyn. Gall y cadarnhad ysgrifenedig hwnnw gael ei roi gan CITB neu (ar ran CITB) gan Pearson VUE (naill ai Pearson Professional Assessments Limited, NCS Pearson Inc., neu endid cysylltiedig sy'n perthyn i Pearson). Daw'r Contract i fodolaeth ar ddyddiad cadarnhad ysgrifenedig o'r fath i Chi yn derbyn eich Archeb. Ni fydd unrhyw Gontract yn dod i fodolaeth nes bydd y cadarnhad ysgrifenedig hwnnw'n cael ei roi i Chi.

2.5. Bydd y Contract yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng CITB a Chi. Rydych Chi'n cydnabod nad ydych Chi, wrth ymrwymo i'r Contract, wedi dibynnu ar unrhyw ddatganiad, addewid na sylw a wnaed neu a roddwyd gan neu ar ran CITB ac eithrio'r rheini a nodir yn benodol yn y Contract.

## 3. Pris a Thaliad

3.1. Y pris ar gyfer pob math o Brawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd fydd £22.50 (ynghyd ag unrhyw daliadau ychwanegol sy'n daladwy (os yw'n berthnasol) yn unol ag amod 7 yma). Mae CITB yn cadw'r hawl i newid y prisiau hyn ar unrhyw adeg heb rybudd.

3.2. Bydd yr holl arian sy'n ddyledus i CITB yn ddyledus mewn punnoedd sterling sy'n daladwy adeg archebu'r Prawf.

3.3. Nid ystyrir bod unrhyw daliad wedi dod i law hyd nes y bydd CITB wedi derbyn yr arian wedi'i glirio.

## 4. Trefn y Prawf

4.1. Os oes unrhyw fanylion ar eich llythyr neu e-bost cadarnhau yn anghywir, rhaid i chi gysylltu â'r Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar **0344 994 4488** ar unwaith.

4.2. Os nad ydych chi'n siŵr pa fath neu gategori o Brawf i'w archebu, ewch i'r adnodd Canfod Cerdyn yn [www.cscs.uk.com/cardfinder](http://www.cscs.uk.com/cardfinder). Bydd angen i chi roi eich galwedigaeth a'ch cymhwyster yno a dilyn y camau ar y sgrin i ddod o hyd i lefel y Prawf sydd ei angen arnoch.

## 5. Polisi Derbyn

5.1. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn cyrraedd y ganolfan brawf 15 munud cyn amser dechrau'r Prawf. Ni fydd CITB yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb (nac unrhyw ad-daliad o'r Ffi Prawf) am ymgeiswyr sy'n cyrraedd yn hwyr neu'n methu cyrraedd oherwydd tywydd gwael, methiant trafnidiaeth neu unrhyw amgylchiadau eraill.

## 6. Gofynion Adnabod

6.1. Mae'n ofynnol i chi ddod ag un math o brif ddull adnabod (**"Prif Ddull Adnabod"**) gyda chi i'r ganolfan brawf. Rhaid i'r Prif Ddull Adnabod ddangos enw llawn yr ymgeisydd a chynnwys ffotograff y gellir ei adnabod o'r ymgeisydd a llofnod yr ymgeisydd.

6.2. Rhaid i bob dogfen a gyflwynir fel Prif Ddull Adnabod fod **yn wreiddiol** (dim llungopïau na chopïau digidol), **yn ddilys** adeg eu darparu (heb ddod i ben) a **bod yn enw'r ymgeisydd** (rhaid i'r enw hwnnw fod yr un fath â'r enw ar yr Archeb Prawf).

6.3. Rhestrir mathau derbyniol o Brif Ddull Adnabod isod:

- Pasbort dilys (unrhyw genedligrwydd)
- Trwydded yrru cerdyn-llun y DU neu Ewropeaidd ddilys
- Trwydded Preswylio Fiometrig (BRP) ddilys neu Gerdyn Preswylio Biometrig (BRC) dilys

6.4. Os nad oes gan ymgeisydd y math o Brif Ddull Adnabod sy'n ofynnol, bydd angen iddo ddod â dau fath o ddull adnabod eilaidd (**"Dull Adnabod Eilaidd"**) gydag ef i'r ganolfan brawf. Rhaid i hyn gynnwys un o Restr A ac un o Restr B isod:

| **Rhestr A**<br>Rhaid iddynt fod yn ddilys a chynnwys enw'r ymgeisydd a ffotograff y gellir ei adnabod | **Rhestr B**<br>Rhaid iddynt fod yn ddilys a chynnwys enw a llofnod yr ymgeisydd |
|---|---|
| Trwydded Yrru Cerdyn-llun y tu allan i'r DU/y tu allan i'r UE | Cerdyn Credyd |
| Pasbort heb lofnod | Cerdyn Debyd |
| Cerdyn Adnabod Cenedlaethol Ewropeaidd | Trwydded Yrru Bapur y DU (a roddwyd cyn 31 Mawrth 2000) |
| Cerdyn Dinesydd neu gerdyn prawf oedran arall yn dangos hologram PASS | |
| Cerdyn Pobl Ifanc yr Alban yn dangos hologram PASS | |
| Cerdyn CSCS neu gerdyn Partner CSCS yn dangos logo CSCS (Hologram) | |
| Cerdyn Adnabod Lluoedd Arfog y DU | |
| Cerdyn Adnabod Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU | |
| Dogfen Deithio Swyddfa Gartref y DU | |

6.5. Rhaid i ymgeisydd heb unrhyw un o'r Prif Ddulliau Adnabod neu Ddulliau Adnabod Eilaidd uchod lenwi Ffurflen Hepgor Dulliau Adnabod Prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu ffonio **0344 994 4488** i gael rhagor o gymorth.

6.6. Cofiwch fod yn rhaid i bob ymgeisydd lofnodi i dderbyn y Telerau ac Amodau a nodir cyn sefyll y Prawf, yn ogystal â thynnu llun yr ymgeisydd yn y ganolfan brawf.

**6.7. Os nad ydych chi'n dod â dull adnabod addas gyda chi i'r ganolfan brawf ni chewch sefyll y Prawf.**

## 7. Cymorth Arbennig

7.1. Rhaid trefnu pob cymorth arbennig neu ychwanegol megis darllenwyr, cyfieithwyr ac arwyddwyr cyn y Prawf drwy ein Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid - Cymorth Arbennig drwy ffonio **0344 994 4491** neu anfon e-bost at citb.testingspecialassistance@pearson.com ar gyfer pob math o Brawf.

7.2. Os yw ymgeiswyr yn cael trafferth darllen, mae gan bob gorsaf brofi glustffonau a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i glywed troslais o'r Prawf yn Saesneg. Dylai ymgeiswyr roi gwybod i staff y ganolfan brawf pan fyddant yn cyrraedd os bydd angen iddynt eu defnyddio. Bydd staff y ganolfan brawf yn esbonio i'r ymgeisydd sut y cynhelir y Prawf.

7.3. Os yw ymgeiswyr wedi gofyn am ddarllenydd, cyfieithydd neu arwyddwr, neu gymorth arbennig arall, bydd yn cael ei ddangos yn yr adran 'Cymorth Arbennig' ar lythyr neu e-bost cadarnhau Archeb yr ymgeisydd. Os oes angen cymorth arbennig ar yr ymgeisydd ac nad yw'n cael ei ddangos, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid - Cymorth Arbennig ar **0344 994 4491** ar unwaith. Os ydym wedi trefnu cymorth arbennig i'r ymgeisydd ac nad yw'r ymgeisydd yn sefyll y Prawf ar y dyddiad a drefnwyd, mae CITB

yn cadw'r hawl i godi cost cymorth arbennig o'r fath ar y sawl sy'n archebu'r Prawf (ac eithrio lle mae methiant yr ymgeisydd i sefyll y Prawf o ganlyniad i CITB yn canslo'r Prawf yn unol ag amod 14). Ni fydd yr ymgeisydd yn cael sefyll Prawf hyd nes y telir costau o'r fath yn llawn.

7.4. Ar gyfer unrhyw fath o Brawf HS&E lle mae opsiwn i'r ymgeisydd sefyll y Prawf gan ddefnyddio cyfieithydd, ni chodir ffi'r cyfieithydd ar yr ymgeisydd am ei Brawf (cychwynnol) cyntaf. Fodd bynnag, ar gyfer pob Prawf HS&E dilynol o unrhyw fath i'w sefyll gan yr ymgeisydd (gan gynnwys lle bo'r Profion dilynol oherwydd ailsefyll, adnewyddu neu fel arall), codir ffi'r cyfieithydd ar yr ymgeisydd yn ogystal â'r Ffi Prawf HS&E (h.y. dim ond unwaith y bydd CITB yn talu ffioedd y cyfieithydd ar gyfer unrhyw fath o Brawf HS&E yn ystod oes yr ymgeisydd). Rhaid i'r holl gostau gael eu talu'n llawn gan yr ymgeisydd cyn sefyll y Prawf.

## 8. Deunyddiau Adolygu

8.1. Mae deunyddiau adolygu ar gael i'w prynu ar ffurf llyfrau a fformatau electronig ar gyfer yr holl fathau o brofion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd o Siop CITB https://shop.citb.co.uk/ neu fel arall drwy ffonio **0344 994 4488**. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeunyddiau adolygu, ewch i https://www.citb.co.uk/courses-and-qualifications/health-safety- and-environment-hse-test-and-cards/preparing-for-the-test/.

## 9. Tiwtorial

9.1. Mae'n hanfodol eich bod yn gyfarwydd â sut y cynhelir y Prawf. Ar ôl i staff y ganolfan brawf egluro'r drefn i Chi, cewch ddewis gwneud tiwtorial i weld sut bydd y Prawf yn gweithio ac yn edrych ar y sgrin, felly byddwch yn gyfarwydd â'r system cyn i chi sefyll eich Prawf. Nid prawf ymarfer yw'r tiwtorial, ac rydym yn argymell yn gryf eich bod yn manteisio ar y tiwtorial hwn, oherwydd unwaith y bydd y Prawf wedi dechrau, nid oes modd torri ar ei draws.

## 10. Canlyniadau Prawf

10.1. Bydd pob ymgeisydd yn cael cadarnhad ysgrifenedig i ddweud a ydynt wedi pasio neu wedi methu'r Prawf. Bydd yr adroddiadau sgorio hyn, ni waeth beth yw canlyniad y Prawf, hefyd yn nodi meysydd gwan lle na chafodd yr holl gwestiynau yn y pwnc hwnnw eu hateb yn gywir.

10.2. Nid oes modd ad-dalu'r Ffi Prawf os nad yw'r ymgeisydd yn cyrraedd y ganolfan brawf ar gyfer y Prawf sydd wedi'i drefnu. Ar ben hynny, os bydd yr ymgeisydd yn methu ei Brawf, ni fydd yn cael ailsefyll y Prawf o fewn 48 awr.

10.3. Os oes angen ail gopi o'r dystysgrif pasio arnoch, dylech fynd at eich adroddiad sgôr drwy eich cyfrif ar-lein. Os byddwch chi'n gofyn am ail gopi o'r dystysgrif pasio gan ein Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar 0344 994 4488, bydd hyn yn golygu ffi weinyddol o £10.00.

10.4. Nid yw CITB yn gallu newid canlyniad Prawf beth bynnag fo'r amgylchiadau. Fodd bynnag, gall CITB archebu ail brawf os yw'n fodlon na chafodd y Prawf ei gynnal yn gywir.

## 11. Ymddygiad

11.1. Ni chaiff ymgeiswyr ddod ag unrhyw un i'r Ganolfan Brawf gyda nhw. Atgoffir ymgeiswyr nad yw'r ganolfan brawf wedi'i sefydlu i ddarparu lle na storio eitemau personol mawr gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fagiau, offer gwaith nac unrhyw gyfarpar swmpus. Ar ben hynny, ni all canolfannau prawf storio beiciau ymgeiswyr (na dulliau eraill o deithio) yn ddiogel a rhaid storio'r rhain y tu allan i'r safle ar risg yr ymgeisydd ei hun. Rhaid i unrhyw eitemau yr ydych yn eu cario (gan gynnwys eitemau personol megis allweddi, ffonau, bagiau, watshis a waledi) gael eu storio mewn locer personol a ddarperir yn y ganolfan brawf. Cofiwch na chaiff yr ymgeisydd gyfeirio at unrhyw ddogfen yn ystod y Prawf. Mae teledu cylch cyfyng ym mhob canolfan brawf a chofnodir pob Prawf at ddibenion diogelwch a chanfod neu ymchwilio i dwyll. Caiff lluniau teledu cylch cyfyng eu cadw'n ddiogel gan ddarparwr y prawf am gyfnod o hyd at 30 diwrnod. Bydd unrhyw

gamymddwyn gan yr ymgeisydd yn ystod y Prawf yn golygu y bydd y Prawf yn cael ei stopio, bydd canlyniad Prawf yr ymgeisydd yn ddi-rym a bydd Ffi Prawf yr ymgeisydd yn cael ei fforffedu. Gall unrhyw ymgeisydd sy'n camymddwyn yn ddifrifol, gan gynnwys twyllo, fforffedu ei hawl i sefyll Prawf pellach. Ar ben hynny, mae CITB yn cadw'r hawl i ddiddymu Tystysgrif pasio prawf os yw'n amau'n rhesymol bod yr ymgeisydd wedi bod yn rhan o unrhyw gamymddwyn neu dwyll neu wedi bod yn gysylltiedig â hynny.

11.2. Bydd staff y ganolfan brawf yn esbonio sut y gall yr ymgeisydd dynnu eu sylw os bydd yr ymgeisydd yn cael unrhyw anawsterau technegol yn ystod y Prawf.

11.3. Dylai ymgeiswyr sy'n anhapus â'r ffordd y cynhaliwyd y Prawf ddwyn y mater i sylw gweinyddwr y prawf neu reolwr y ganolfan brawf adeg y Prawf.

11.4. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu datrys y mater yn y ganolfan brawf, dylai'r ymgeisydd (neu Chi) un ai ffonio'r Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar **0344 994 4488**, anfon e-bost at citb.testingcustomerservices@pearson.com neu ysgrifennu at y Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid, CITB d/o Pearson VUE, PO BOX 1286, Warrington, WA1 9GN. Rhaid i chi neu'r ymgeisydd wneud hyn cyn pen 15 Diwrnod Gwaith ar ôl sefyll eich Prawf.

11.5. Os yw'r ymgeisydd (neu Chi) yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb gan y Tîm Gwasanaeth i Gwsmeriaid, gall yr ymgeisydd (neu Chi) ysgrifennu at Reolwr Cynnyrch y Prawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, CITB, Sand Martin House, Bittern Way, Fletton Quays, Peterborough, PE2 8TY neu anfon e-bost at testingservicesfeedback@citb.co.uk.

## 12. Aildrefnu eich Prawf

12.1. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno aildrefnu'r Prawf, rhaid i'r ymgeisydd wneud hyn o leiaf 72 awr cyn y Prawf. Ni fydd yr ymgeisydd yn gallu aildrefnu o fewn 72 awr i ddyddiad y Prawf sydd wedi'i drefnu.

12.2. Ni chodir tâl ar ymgeiswyr sy'n aildrefnu'r Prawf ar-lein drwy system archebu ar-lein Pearson VUE yn https://wsr.pearsonvue.com/testtaker/signin/SignInPage/CITB y tu allan i'r cyfnod cosbi 72 awr yn unol ag amod 12.1. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn cofio eu manylion mewngofnodi ddefnyddio'r dolenni 'Rwyf wedi anghofio f'enw defnyddiwr / rwyf wedi anghofio fy nghyfrinair' ar y dudalen mewngofnodi i gael manylion mewngofnodi wedi'u he-bostio atynt. Sylwch fod yn rhaid i'r cyfeiriad e-bost fod yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd wrth gofrestru ac archebu'r Prawf sy'n cael ei aildrefnu.

12.3. Bydd unrhyw aildrefnu a wneir drwy ein llinell archebu dros y ffôn ar **0344 994 4488** yn arwain at ffi aildrefnu o £5.00.

## 13. Eich Hawl i Ganslo

13.1. Mae gennych hawl i ganslo'r Prawf ond rhaid i chi wneud hyn o leiaf 72 awr cyn y Prawf. Os caiff y Prawf ei ganslo heb roi 72 awr o rybudd gofynnol, ni chewch ad-daliad, a bydd yn rhaid i chi archebu a thalu am Brawf newydd.

13.2. Ceir ad-daliad pan fydd Profion yn cael eu canslo y tu allan i'r cyfnod rhybudd o 72 awr drwy ein llinell archebu dros y ffôn, ond bydd yn rhaid talu ffi weinyddol o £10.00.

13.3. Telir ad-daliad llawn am Brawf a ganslwyd y tu allan i'r cyfnod rhybudd o 72 awr gan ddefnyddio system archebu ar-lein Pearson VUE https://wsr.pearsonvue.com/testtaker/signin/SignInPage/CITB, na fydd yn denu ffi weinyddol.

13.4. Bydd ad-daliadau ar ffurf ad-daliad cerdyn credyd/debyd neu drwy siec a byddant yn cael eu gwneud o fewn 15 Diwrnod Gwaith i dderbyn cais dilys. Ni roddir ad-daliad os ydych Chi wedi talu am Brawf gan ddefnyddio taleb, ond gallwch aildrefnu eich Prawf yn unol ag amod 12 uchod.

## 14. Hawl CITB i Ganslo

14.1. Mae CITB yn cadw'r hawl i ganslo (gan gynnwys canslo ar ddiwrnod y Prawf) os bydd darparwr y prawf yn wynebu problem sydd y tu hwnt i'w reolaeth (gan gynnwys methiant trydan, rhybudd diogelwch, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) ac mewn amgylchiadau

o'r fath byddwch yn cael cynnig dyddiad Prawf arall. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd pellach.

14.2. Yn ogystal, gall CITB derfynu'r Contract ar unwaith (heb atebolrwydd i Chi) os ydych Chi'n torri unrhyw un o'r Amodau hyn mewn modd perthnasol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd prynu Prawf gan Asiant Archebu Trydydd Parti yn cael ei ddehongli fel achos perthnasol o dorri'r Amodau hyn.

## 15. Atebolrwydd

15.1. Ni fydd unrhyw beth yn yr Amodau hyn yn eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd CITB am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod ni neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei gyfyngu na'i eithrio gan gyfraith berthnasol.

15.2. Yn amodol ar amod 15.1, ni fydd CITB yn atebol i Chi, boed hynny mewn contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), am dorri dyletswydd statudol, neu fel arall, sy’n codi o dan neu mewn cysylltiad â’r Contract am:

15.2.1. unrhyw golled mewn elw, busnes, enillion, contractau, refeniw, data, ewyllys da, arbedion disgwyliedig neu am unrhyw anhwylustod neu siom gweinyddol; a/neu

15.2.2. unrhyw golled anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol o unrhyw fath.

15.3. Yn ddarostyngedig i amod 15.1, ni fydd cyfanswm atebolrwydd CITB i Chi mewn perthynas â’r holl golledion eraill sy’n codi o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef, boed hynny mewn contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), am dorri dyletswydd statudol, neu fel arall, o dan unrhyw amgylchiadau, yn fwy na chyfanswm y Ffi Prawf a dalwyd gennych Chi am y Prawf a drefnwyd y mae a wnelo’r Contract (neu unrhyw hawliad) ag ef.

15.4. Bydd yr amod 15 hwn yn parhau ar ôl i’r Contract ddod i ben.

## 16. Force Majeure

16.1. Ni fydd CITB yn atebol i Chi os caiff ei atal neu os bydd yn wynebu oedi rhag cyflawni ei holl rwymedigaethau neu unrhyw rai o’i rwymedigaethau o dan y Contract oherwydd unrhyw achos neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i’n rheolaeth resymol gan gynnwys, heb gyfyngiad, streiciau ac anghydfodau diwydiannol eraill, methiant gwasanaeth cyfleustodau, methiant systemau neu fynediad i rwydwaith, gweithredoedd Duw, tanau, llifogydd, ffrwydrad, damwain, rhyfela, gweithredoedd terfysgol, pandemig neu gydymffurfio ag unrhyw gyfraith.

## 17. Cyffredinol

17.1. Mae CITB yn defnyddio’r data personol rydych Chi’n ei ddarparu at amrywiol ddibenion gan gynnwys darparu’r Prawf a gwasanaethau eraill yn unol â’n polisi preifatrwydd a fydd yn berthnasol i’ch Archeb Chi a’r Contract. Mae copi o’n polisi preifatrwydd, y gellir ei ddiweddaru o bryd i’w gilydd, ar gael ar ein gwefan yn https://www.citb.co.uk/cy-gb/dolenni-defnyddiol/polisi-preifatrwydd/. Darllenwch ein polisi preifatrwydd cyn gwneud Eich Archeb.

17.2. Ni fwriedir i unrhyw beth yn y Contract greu partneriaeth na chyd-fenter rhwng y partïon na chreu perthynas asiant a phennaeth, ac ni thybir y bydd hynny’n digwydd.

17.3. Ni fydd gennych hawl i aseinio’r holl hawliau neu rwymedigaethau o dan y Contract, nac unrhyw ran ohonynt, heb ganiatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw.

17.4. Nid oes gan berson nad yw’n barti i’r Contract hawl o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 i orfodi unrhyw un o delerau’r Contract ond nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi gan drydydd parti sy’n bodoli neu sydd ar gael ar wahân i’r Ddeddf honno.

17.5. Os ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth neu ran o ddarpariaeth yn y Contract yn annilys, yn anghyfreithlon neu’n anorfodadwy, tybir ei bod wedi’i haddasu i’r graddau lleiaf sy’n angenrheidiol i’w gwneud yn ddilys, yn gyfreithiol ac yn orfodadwy. Ni fydd unrhyw addasiad i ddarpariaeth neu ran o ddarpariaeth yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd gweddill y Contract.

17.6. Bydd y Contract ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy’n deillio o neu mewn cysylltiad â’i bwnc neu ei ffurf (gan gynnwys hawliadau heb gontract) yn cael ei lywodraethu a’i ddehongli yn unol â chyfraith Lloegr a bydd gan lysoedd Lloegr awdurdodaeth lwyr i ddatrys unrhyw anghydfodau neu hawliadau o’r fath rhyngom.